

Hawdd i'w Ddeall

Ein cynllun cydraddoldeb i helpu mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru

Beth wnaethon ni yn 2021 i 2022



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-2022'.

Mehefin 2023



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifenu glas trwm** yn gallu bod yn anodd i'w deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 25**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: www.celf.cymru

E-bost: grantiau@celf.cymru

Ffôn: 03301 242 733



Mae **Hawdd ei Deall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

[Rhif trwydded Photosymbols 403527247.](#)

Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma	2
Am y ddogfen yma	4
Nodau ein cynllun cydraddoldeb	8
Y gwaith pwysig rydyn ni wedi ei wneud yn 2021 i 2022	10
Sut rydyn ni wedi gwneud	12
Beth sydd angen i ni ei wneud nesaf.....	21
Geiriau Anodd	25

Am y ddogfen yma



Fe wnaethon ni ysgrifennu'r **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** ar gyfer 2020 i 2024 i helpu mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru.



Dyma adroddiad am y gwaith rydyn ni wedi ei wneud ar y cynllun hwnnw yn 2021 a 2022.



Rydyn ni'n credu fod y celfyddydau ar gyfer pawb.



Rydyn ni eisiau gweithio gyda phobl o gefndiroedd **amrywiol** a thrin pawb yn gyfartal ac yn deg.



Mae **amrywiol** yn meddwl pobl o bob diwylliant, gallu a ffordd o fyw.

Maen nhw:

- Gyda sgiliau gwahanol
- Yn credu gwahanol bethau
- Gyda hunaniaeth rywiol wahanol
- Yn gwneud dewisiadau gwahanol ynghylch sut maen nhw'n byw eu bywydau
- Yn wahanol oedrannau

Rydyn ni eisiau i'r celfyddydau yng Nghymru gynnwys:



- Unrhyw un sy'n gweld eu hunain yn dod o grŵp ethnig sydd nid yn unig yn Wyn.



- Pobl fyddar a phobl â cholled clyw.



- Pobl anabl.



- **Pobl niwroamrywiol**

Mae **pobl niwroamrywiol** yn bobl y mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.



- Pobl sydd wedi wynebu **hiliaeth** neu **wahaniaethu**.

Mae **hiliaeth** yn driniaeth annheg neu gas i bobl oherwydd eu bod yn perthyn i hil benodol.



Gwahaniaethu ydy pan rydych chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.



Mae'n bwysig i ni helpu i wneud yn siŵr bod Cymru'n lle teg a chyfartal i fyw.



Rydyn ni eisiau i bobl o gefndiroedd **amrywiol** gael yr un cyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau ag eraill.

Gwaith sy'n cael ei effeithio oherwydd coronafeirws



Mae'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau yn 2021 i 2022 wedi cael eu heffeithio oherwydd coronafeirws.



Pobl sydd â llai o arian, llai o addysg a phobl anabl gafodd eu heffeithio fwyaf.

Nodau ein cynllun cydraddoldeb

Mae gan ein cynllun cydraddoldeb 5 nod. Dyma nhw:



1. Gwella ein gwybodaeth a'n profiad wrth weithio gyda sefydliadau a chymunedau rydyn ni yn gweithio gyda nhw.



2. Cyflogi staff yn y celfyddydau o **gefndiroedd amrywiol** a phobl â **nodweddion gwarchodedig**.



Mae **nodweddion gwarchodedig** yn ymwneud â chyfraith ynglŷn â thrin pobl yn gyfartal ac yn deg. Mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

- Oed
- Anabledd
- Pobl dduon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig
- Pwy maen nhw'n ei hoffi neu'n ei garu
- Bod yn feichiog
- Bod yn briod

Dydy hyn ddim yn iawn. Rhaid trin y grwpiau yma o bobl yn gyfartal ac yn deg.



3. Gwneud yn siŵr bod pobl yn y celfyddydau ac artistiaid yn cael cyflog teg a chyfartal yng Nghymru.



4. Cefnogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol **amrywiol** i gael gafael ar gyllid.



5. Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl **amrywiol** yn cymryd rhan yn y celfyddydau.

Y gwaith pwysig rydyn ni wedi ei wneud yn 2021 i 2022



Fe wnaethon ni edrych ar ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** mwy ar gyfer 2020 i 2024 eto.



Ein ffocws nawr ydy sut i gefnogi pobl sy'n byw mewn cymunedau mwy tlawd a sut i wneud hyn yn brif nod ein cynllun 2022 i 2023.



Fe wnaethon ni gyhoeddi **Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltu** ar y cyd gydag **Amgueddfa Cymru**. [Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltu](#)



Fe wnaeth y **prosiect Ehangu Ymgysylltu** ddechrau ym mis Awst 2021 i ddarganfod pam nad ydy'r celfyddydau'n boblogaidd gyda rhai grwpiau o bobl.



Rydyn ni yn parhau i weld ydy pobl yn gallu cael gafael ar gyllid. Mae llawer o bobl wedi gwneud yn dda ac wedi gallu gwneud cais am gyllid.




Fe wnaethon ni benodi ein **Asiant dros Newid**, Andrew Ogun. Roedd Andrew yn canolbwyntio ar wneud newidiadau i bolisiau a phrosesau i wneud gwaith yn deg ac yn gyfartal.



Rydyn ni'n parhau i gefnogi artistiaid a chyrrff celfyddydau sy'n cael trafferth gydag effaith coronafeirws.



Rydyn ni eisiau i'n cynllun cydraddoldeb ganolbwyntio ar y gwersi rydyn ni wedi eu dysgu o'r ymgyrch **#WeShallNotBeRemoved** oedd yn siarad am sut mae coronafeirws wedi effeithio ar artistiaid sy'n anabl a sut mae pobl yn teimlo'n unig.



Rydyn ni eisiau parhau i gefnogi sefydliadau a phobl i gymryd rhan yn y celfyddydau drwy brosiect o'r enw **Camau Creadigol**.



Mae llawer o bobl bellach yn aelodau o **Hynt**. Mae cardiau **Hynt** yn helpu pobl sydd angen cymorth i fynd i ddigwyddiadau celfyddydol. Rydyn ni eisiau gweithio gyda Chynghorau Celfyddydau eraill y DU i weld ydyn ni'n gallu cael y cerdyn yma ar draws y DU.

Sut rydyn ni wedi gwneud

Gwybodaeth rydyn ni wedi ei gasglu yn 2021 i 2022



1. Gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydyn ni eisiau gweld bod ein rheolau a'n polisiau yn ein helpu ni i drin pawb yn deg ac yn gyfartal.



Fe wnaethon ni ofyn i'n holl staff a phobl sy'n gwneud cais am swyddi lenwi'r ffurflen cydraddoldeb, **amrywiaeth** a monitro.



Rydyn ni yn gweithio gyda thîm ymchwil Cyngor y Celfyddydau a sefydliadau eraill fel Stonewall a'r Galluogwr Cymraeg/Ysgogwr y Gymraeg i ddefnyddio'r geiriau cywir a chynnwys mwy o opsiynau ar y ffurflen.

Mae'r wybodaeth rydyn ni wedi ei gasglu yn dangos i ni:



- Dywedodd y rhan fwyaf o staff ac ymgeiswyr eu bod yn heterorywiol neu'n syth.



- Dywedodd y rhan fwyaf o staff ac ymgeiswyr eu bod yn Gymry. Roedd yr ail nifer uchaf o bobl yn Brydeinwyr.



- Dywedodd y rhan fwyaf o bobl nad oes ganddyn nhw grefydd. Doedd dim llawer o staff yn dweud am eu crefydd.



- Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff bod eu **hethnigrwydd** naill ai'n Wyn, Gwyn Asiaidd, Gwyn Prydeinig, Saesneg Gwyn, Gwyddelig Gwyn, Gwyn Arall a Gwyn Cymreig. Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dweud eu bod yn Wyddelod Gwyn Prydeinig, Gwyn Gymreig neu Gwyn Gwyddelig.

Ethnigrwydd ydy hil neu gefndir unigolyn. Er enghraifft, du, gwyn neu Asiaidd.



- Fe wnaethon ni ofyn i'n staff gofnodi a ydyn nhw yn anabl. Dywedodd mwy o staff wrthyn ni am eu hanabledd eleni o'i gymharu â'r llynedd.



- Roedd y rhan fwyaf o staff ac ymgeiswyr rhwng 40 a 49 oed.



- Mae staff gwrywaidd yn cael cyflog ychydig yn uwch na staff benywaidd. Ond gyda'r cyflog yn codi bob blwyddyn fe fydd mwy o fenywod yn cyrraedd brig eu gradd cyflog.

Ein Portffolio Celfyddydau Cymru 2021 i 2022



2. Mae gennym fwy o bobl â nodweddion gwarchoddedig fel gweithwyr ac aelodau o'n Bwrdd.



Rydyn ni yn gweithio gyda mwy o bobl anabl a'r rhai o gefndiroedd diwylliannol ac **ethnig amrywiol**.



Mae mwy o bobl ifanc yn gweithio yn y celfyddydau.



Mae mwy o aelodau ein Bwrdd yn dod o **grwpiau nodweddion gwarchoddedig**.



Rydyn ni yn gweithio gyda mwy o bobl sy'n **hoiw**, **lesbiaidd** neu **ddeurywiol**.



Mae pobl **hoiw** a **lesbiaidd** yn ffansio ac yn caru pobl sydd yr un rhyw â nhw. Mae **pobl ddeurywiol** yn ffansio ac yn caru dynion a menywod.

Ein rhaglenni sydd yn cael eu hariannu gan y Loteri yn 2021 i 2022

3. Mae'r ffocws yn fwy ar brosiectau a rhaglenni celfyddydol yn y ceisiadau rydyn ni'n eu cael.



Yn 2021-2022 fe wnaethon ni roi cyfanswm o £14.6 miliwn i 369 o brosiectau. Roedd rhai o'r prosiectau yma wedi'u hanelu at bobl fyddar ac anabl, a phobl o gefndiroedd diwylliannol ac **ethnig amrywiol**.



Dangosodd gwybodaeth fod menywod wedi cael mwy o arian grant na dynion.



Er bod yr arian a roddwyd i ddynion yn fwy na menywod.



Roedd gan bobl rhwng 26 a 49 oed y rhan fwyaf o'r grantiau.



Dim ond 2 grant a roddwyd i bobl dan 25 oed. A 7 grant i bobl dros 60 oed.



Cafodd mwy o bobl sy'n **lesbiaidd**, **hoiw**, neu **ddeurywiol** grantiau yn 2021-2022.



Fe wnaethon ni roi mwy o arian grant i bobl o gefndiroedd diwylliannol ac **ethnig amrywiol** nag a wnaethon ni i bobl Gwyn.



Rhoddwyd mwy o grantiau yn 2021 i 2022 i bobl fyddar ac anabl.



Rhoddwyd 25 o grantiau i sefydliadau sy'n cael eu harwain gan bobl amrywiol yn ddiwylliannol ac yn **ethnig**.



Ac fe gafodd 27 o grantiau eu rhoi i sefydliadau sy'n cael eu harwain gan bobl fyddar neu anabl.



Mae mwy o bobl ifanc yn aelodau o'n Bwrdd.

Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol

4. Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol newydd yn parhau i edrych ar y gwaith o amgylch ein cynllun gweithredu.



Mae'r pwyllgor hefyd yn cefnogi datblygiad a chynnydd y **cynllun gweithredu Ehangu Ymgysylltu**.



Mae'r Pwyllgor yn ysgrifennu agenda ein gwaith cydraddoldeb ac yn adrodd yn uniongyrchol i ni.

Ein dyletswyddau cyfreithiol

5. Yn ystod 2021 i 2022, fe wnaethon ni edrych ar ein gwaith i wneud yn siŵr ein bod yn dilyn y gyfraith.

Ein dyletswydd ydy:



- Stopio **gwahaniaethu**, aflonyddu ac ymddygiad arall sy'n groes i'r gyfraith.



- Rhoi cyfle cyfartal i bobl â **nodweddion gwarchoddedig**.



- Adeiladu perthynas dda rhwng pobl gyda **nodweddion gwarchoddedig** a'r rhai heb.

Beth rydyn ni'n parhau i'w wneud:



Rydyn ni yn parhau i edrych ac adrodd ar wahaniaethau cyflog.



Rydyn ni yn casglu gwybodaeth am bobl sy'n gwneud cais am swyddi yng Nghyngor y Celfyddydau. Fe fyddwn ni yn edrych ar y ffordd orau o gasglu gwybodaeth am yr hyfforddiant rydyn ni yn ei ddarparu i'n staff.



Rydyn ni yn gwneud yn siŵr bod ein polisiau, ein rhaglenni a'n prosiectau yn hyrwyddo cydraddoldeb.



Mae ein polisiau yn cynnwys ein rheolau ynghylch cydraddoldeb. Ond mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd i weld ydy hyn yn gweithio.

Beth sydd angen i ni ei wneud nesaf

Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill



Mae **cyrff cyhoeddus** yn sefydliadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru.

Rydyn ni yn parhau i weithio gyda rhwydwaith o 11 **corff cyhoeddus** ar ein nodau cydraddoldeb sydd yn cael eu rhannu.



Mae'r rhwydwaith yn cynnwys:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Chwaraeon Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Comisiynydd y Gymraeg
- Gyrfaoedd Cymru
- ac eraill.




Fe fydd gweithio gyda **chyrff cyhoeddus** eraill yn ein helpu i weld:

- sut rydyn ni yn gwneud
- rhannu beth rydyn ni wedi'i ddysgu
- a dod o hyd i ffyrdd gwell o weithio.

Gweithio gyda sefydliadau eraill



Mae'n bwysig gweithio gyda sefydliadau eraill i wella ein gwaith.



Rydyn ni yn parhau i weithio gyda Chynghorau Celfyddydau eraill ar draws y DU. Mae wedi ein helpu i ddysgu o'u gwaith a rhannu ein gwaith ein hunain.

AMGUEDDFA CYMRU

Rydyn ni yn parhau i weithio gydag **Amgueddfa Cymru** ar ein **Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltu**.



Rydyn ni yn gweithio gyda sefydliadau eraill fel **Stonewall Cymru, Diverse Cymru, Chwarae Teg, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn, Cyngor Hil Cymru, Byrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru**.

Gwrando ar ein staff a'r pobl rydyn ni yn gweithio gyda nhw



Mae ein **Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol** yn cynnwys staff o bob rhan o'n sefydliad a chynghorwyr o'r tu allan i'n sefydliad.



Fe ddylen ni ddod o hyd i ffyrdd o weithio gyda sefydliadau a phobl eraill nad ydyn ni wedi gweithio gyda nhw.

Stopio niwed



Mae ein nodau cydraddoldeb wedi'u hysgrifennu i amddiffyn a diogelu pobl.

Meddwl yn y tymor hir



Mae ein cynllun yn canolbwyntio ar amcanion tymor hir. Mae'n bwysig ein bod ni'n meddwl am effaith tymor hir beth rydyn ni'n ei wneud nawr.

Geiriau Anodd

Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl pobl o bob diwylliant, gallu a ffordd o fyw.

Maen nhw:

- Gyda sgiliau gwahanol
- Yn credu mewn gwahanol bethau
- Gyda hunaniaeth rywiol wahanol
- Yn gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw'n byw eu bywydau
- O wahanol oedrannau

Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn sefydliadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru.

Ethnigrwydd

Ethnigrwydd ydy hil neu gefndir unigolyn. Er enghraifft, du, gwyn neu Asiaidd.

Gwahaniaethu

Gwahaniaethu ydy pan rydych chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol

Mae pobl hoyw a lesbiaidd yn ffansio ac yn caru pobl sydd yr un rhyw â nhw. Mae pobl ddeurywiol yn ffansio ac yn caru dynion a menywod.

Hiliaeth

Mae hiliaeth yn driniaeth annheg neu gas i bobl oherwydd eu bod yn perthyn i hil benodol.

Niwroamrywiol

Mae pobl niwroamrywiol yn bobl y mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.

Nodweddion gwarchoddedig

Mae nodweddion gwarchoddedig yn ymwneud â chyfraith ynglŷn â thrin pobl yn gyfartal ac yn deg. Mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

- Oed
- Anabledd
- Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig
- Pwy maen nhw'n ei hoffi neu'n ei garu
- Bod yn feichiog
- Bod yn briod

Dydy hyn ddim yn iawn. Rhaid trin y grwpiau yma o bobl yn gyfartal ac yn deg.